# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Chwefror 2024

Amser: 13.31 - 16.06

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13705

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>Paul Davies AS (yn lle Samuel Kurtz AS)<br>Adam Price AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Ni chafwyd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)451 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Symiau) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 3.1 SL(6)450 – Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) (Diwygio) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(6)453 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2024

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7.

### 4.1 SL(6)452 – Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu – Cod Ymarfer i Gymru

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

### 5.1 SL(6)447 – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 5.2 SL(6)448 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Diwygiadau Amrywiol a Chanlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) (Cymru) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 6.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip

### 6.2 Gohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiwylliant a’r Diwydiannau Creadigol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth.

### 6.3 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd: Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio a Darpariaeth Drosiannol etc.) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd.

### 6.4 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Grŵp Rhyngweinidogol ar Sero Net, Ynni a Newid Hinsawdd

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

### 6.5 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

### 6.6 Gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Rheoliadau Fframwaith Windsor (Symud Anfasnachol Anifeiliaid Anwes) 2024

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd.

### 6.7 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Cyfarfod Gweinidogol Cyngor Prydain ac Iwerddon ar Gyffuriau ac Alcohol

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

### 6.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Gohebiaeth gan y Llywydd: Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Llywydd.

### 7.2 Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru: Ymchwiliad i Lywodraethiant y DU a'r UE

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

### 7.3 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Bwyllgor y Biliau Diwygio: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Bwyllgor y Biliau Diwygio.

**7.4 Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cyllid camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**7.5 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu'r Dreftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

**7.6 Gohebiaeth gyda Phrif Weinidog Cymru: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

**7.7 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**7.8 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**7.9 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cyllid.

**7.10 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

**7.11 Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymgynghoriad ar newidiadau i'r broses Rhoi Pethau'n Iawn a diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**7.12 Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad Seneddol Cyfraith yr UE a Ddargedwir (REUL) Mehefin i Ragfyr 2023**

Nododd y Pwyllgor y Datganiad Ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

**7.13 Gohebiaeth gan Sam Rowlands AS: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Sam Rowlands AS

**7.14 Gohebiaeth gyda Phrif Weinidog Cymru: Y cytundeb o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Gyfraith y Môr ar Gadwraeth a Defnydd Cynaliadwy o Amrywiaeth Biolegol Morol o Ardaloedd y Tu Hwnt i Awdurdodaeth Cenedlaethol**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Prif Weinidog.

**7.15 Gohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) (Diwygio) 2024**

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Newid Hinsawdd.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar Reoliadau Deddf Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) 2023 (Diwygiadau Canlyniadol ac Amrywiol) 2024: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 10 Cytundebau Rhyngwladol: Adroddiad drafft

Cytunodd y Pwyllgor ar ei adroddiad drafft ar gytundebau rhyngwladol a drafodwyd yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror 2024.

## 11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad

Trafododd y Pwyllgor y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunodd i ystyried adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig. Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 13 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 14 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Trafododd y Pwyllgor y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Cytunodd i wahodd y Gweinidog Newid Hinsawdd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod y Memoranda, ac i

ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno adroddiad.

## 15 Is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig: Trafod y dystiolaeth ysgrifenedig

Trafododd y pwyllgor ei waith parhaus ar is-ddeddfwriaeth a osodwyd yn Saesneg yn unig a chytunodd arno, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.

## 16 Olrhain gwaith cywiro offerynnau statudol Llywodraeth Cymru o ran gwallau a adroddwyd, ac adrodd ar y gwaith hwnnw: Trafodaeth

Trafododd y pwyllgor ei ddull parhaus o olrhain gwaith cywiro offerynnau statudol Llywodraeth Cymru o ran gwallau a adroddwyd fel yr adroddwyd gan y Pwyllgor, a chytunodd arno.